

Byddwch yn ymateb yn feirniadol i erthygl. Cyhoeddir yr erthygl ar Moodle yn ystod y flwyddyn. Bydd angen i chi ddangos eich dealltwriaeth o themau sy'n gysylltiedig ag addysgu'r Gymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg, a'ch gwybodaeth ynghylch addysgu a dysgu iaith gyntaf ac ail iaith yn gyffredinol.

Bwriadaf drafod o fewn y traethawd yma erthygl a gyhoeddwyd gan Dr. Gwyn Lewis yn 2011 ac ymateb yn feirniadol i'r hyn a thrafodwyd. Byddaf yn dangos fy nealltwriaeth o themâu sy'n gysylltiedig ag addysgu'r Gymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg a fy ngwybodaeth ynghylch addysgu a dysgu iaith gyntaf ac ail-iaith yn gyffredinol. Mae pwrpas yr awdur wrth iddo ysgrifennu'r erthygl hon yn eang iawn, fodd bynnag, gyda chyhoeddi Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ebrill 2010, fy nghytensiwn yw ei fod yn ymateb yn feirniadol i'r cyhoeddiad penodol gan y llywodraeth. Yn ychwanegol i hyn, mae'n bwysig nodi hefyd bod yr awdur wrth ysgrifennu'r erthygl hon yn gwneud cysylltiadau pwysig i 'adolygu'r cyd-destun rhyngwladol' lle mae "cymunedau dwyieithog ac amlieithog ledled Ewrop a'r byd yn cydnabod ein llwyddiant ac yn defnyddio system addysg cyfrwng Cymraeg fel enghraifft o arfer gorau i'w hefelychu" (Lewis, 2011, t. 2).

Mae'n bwysig hefyd i gyfeirio at y ffaith bod yr erthygl yn cyfeirio at waith sydd yn ymwneud ar yr un pwnc. Mae addysgu'r Gymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg, addysgu a dysgu iaith gyntaf ac ail-iaith ac amlieithrwydd yn themâu sydd wedi'u dogfennu'n aml yn y system addysg yng Nghymru, yn enwedig o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Donaldson yn lleisiol iawn ar addysgu iaith Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail-iaith, lle mae gwaith Donaldson hefyd yn ymwneud a beth mae'r erthygl yn trafod. Awgryma Donaldson (2015, t. 60) "Dylai ysgolion cyfrwng Cymraeg weithio fel canolbwynt ar gyfer y Gymraeg, er mwyn helpu athrawon ac ymarferwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.". Mae hwn yn ddatganiad pwysig iawn gan Donaldson gan ei fod yn gred gadarn sy'n awgrymu y dylai ysgolion cyfrwng Cymraeg cefnogi'r ysgolion cyfrwng Saesneg wrth ddarparu'r addysg Gymraeg ail-iaith orau bosibl. Dadleua'r erthygl mae angen "ymchwilio ymhellach i ddarganfod dulliau o wneud cynnwys gwersi yn fwy hygyrch ac ystyrlon i ddysgwyr mewn rhaglenni trochi" (Lewis, 2011, t. 82). O hyn, mae'n rhaid ystyried bydd cyfathrebu a chymorth rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r ysgolion Saesneg yn sicr rhywbeth a fydd yn cefnogi a chynorthwyo ysgolion ffrwd Saesneg, yn "arbennig mewn meysydd cwricwlaidd a ystyrir yn heriol pan fo'r cynnwys pynciol yn cael ei gyflwyno trwy'r ail iaith" (Lewis, 2011, t. 82).

Wrth ddadansoddi'r erthygl, mae'n bwysig ystyried enw neu awdurdod yr awdur o fewn y maes a drafodir er mwyn sefydlu dibynadwyedd yr ymateb. Mae Dr Gwyn Lewis yn ddarlithydd academiaidd blaenllaw addysg ym Mhrifysgol Bangor. Gydag o leiaf deg eitem ymchwil, mae ei sgiliau a'i harbenigedd yn cynnwys; addysgu iaith, caffael iaith, caffael ail iaith ac addysg athrawon. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys addysg Gymraeg a dwyieithog, dwyieithrwydd a datblygiad ieithyddol plant lle defnyddir dwy iaith yn yr ystafell ddosbarth i roi gwybodaeth am y pwnc (Gwerddon, 2011). Felly, daw i'r amlwg o'r cychwyn bod awdur yr erthygl yn arbenigwr o fewn y maes sy'n cael ei archwilio. Mae ei brofiad ac ymchwil o fewn y sector yma o addysg yn bendant yn arddangos ei wybodaeth eang ac yna'n pwysleisio ei ddibynadwyedd ond hefyd dilysrwydd yr hyn maent yn codi.

Mewn ysgolion a lleoliadau lle mae'r Saesneg yn brif gyfrwng cyfathrebu, dylai sgiliau Cymraeg y plant gael eu datblygu'n raddol trwy gydol y Cyfnod Sylfaen drwy weithredu Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg. (Llywodraeth Cymru, 2008, t. 27)

Mae'r datganiad uchod yn nodi bod ysgolion cyfrwng Saesneg yn gorfod cyflwyno Cymraeg i blant y cyfnod sylfaen yn raddol. Mae'n bwysig ystyried bod gan Lywodraeth Cymru disgwyliadau uwch wrth gyflwyno'r Gymraeg yn ysgolion cyfrwng Saesneg o dan Faes Dysgu Datblygu'r Gymraeg, ond hefyd mae'n angenrheidiol adnabod bod dysgu neu gyflwyno iaith newydd yn gymhleth, ac mae yna nifer helaeth o raglenni ar draws y byd sy'n honni addysgu plant i fod yn ddwyieithog. Er hynny, awgryma'r erthygl "nid yw pob model dwyieithog yn arwain at lythrennedd deuol a dwyieithrwydd llawn o safbwynt yr unigolyn" (Lewis, 2011, t. 68). Yna, mae'n bwysig ystyried barn yr arbenigwr o fewn yr erthygl, lle nid yw pob dull yn caniatáu i unigolion gyrraedd dwyieithrwydd llawn. Yna, mae hyn yn ein galluogi ni fel addysgwyr i edrych ar bob model unigol, er mwyn nodi pa rai sy'n caniatáu i unigolion gyrraedd eu llawn botensial o ran dwyieithrwydd, ac yna sut i 'fowldio' profiadau'r gorffennol er mwyn cyrraedd llwyddiant.

Er bod darpariaeth y wahanol fodelau o addysgu iaith yn ddwyieithog yn chwarae rôl hanfodol, mae yna amrywiaeth o ffactorau arall sydd yn effeithio'r gallu i blentyn fod yn ddwyieithog ac yna hyderus. Dadleua'r erthygl bod yr iaith y mae siaradwyr yn defnyddio gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle yn medru effeithio hefyd (Lewis, 2011, t. 69). Er hynny, mae'n rhaid anghytuno â'r datganiad yma, lle er bod yr iaith y mae plentyn yn siarad gartref yn bwysig i roi hwb o hyder wrth siarad y Gymraeg, mae'n synhwyrol i gael

plentyn siarad un iaith yn yr ysgol a'r llall yn y cartref er mwyn cyfoethogi a chael safon gyfartal rhwng y ddwy iaith. Yn enwedig yng Nghymru gydag ein cyfnod sylfaen yn darparu addysg Gymraeg ar gyfer y cyfrwng Cymraeg a chyflwyno Saesneg yn 7 oed, mae'n arbennig o bwysig sicrhau bod plentyn yn cael elfen o Saesneg yn y cartref gyda'i rhieni.

Yna, mae hyn yn arwain at anghytuno a'r datganiad bod plentyn yn dod yn ddryslyd os caiff ei gyflwyno i ddwy iaith ar yr un tro – os nad ydyn yn cyflwyno'r ddwy yn y blynyddoedd cynnar gall dryswch amlygu yn ysgol uwchradd wrth astudio am arholiadau. Bu Pearson (2008, t. 147) yn cefnogi fy anghytundeb trwy ddatgan "From just days after birth, all infants can tell the difference between many languages", ac yna'n anghytuno â'r dryswch arfaethedig wrth hyrwyddo pwysigrwydd amlieithrwydd o oedran ifanc.

Fodd bynnag, mae plant yn y sector Saesneg mewn senario hollol wahanol. Ond cyn datgelu i mewn i ail-iaith Gymraeg a cheisio rhoi barn ar ail-iaith Cymraeg, mae'n bwysig deall sut y mae'n cael ei addysgu, i gymharu ag iaith gyntaf y Gymraeg. Mynega Llywodraeth Cymru (2015, t. 9) o fewn y ddogfen Cymraeg Ail-Iaith, yn ystod y Cyfnod Sylfaen "dylai plant ddysgu defnyddio'r Gymraeg a gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg hyd eithaf eu gallu" felly'n amlygu bod Cymraeg yn cael ei ddarparu i blant Cymraeg ail-iaith cyn gynted â phosib er mwyn iddynt ddatblygu math o gyfarwydd-deb. Awgryma'r Llywodraeth hefyd "dylid eu hannog i gyfleu eu hanghenion trwy gyfrwng y Gymraeg, a dylid eu cyflwyno'n gynyddol i'r Gymraeg." Mae'r datganiad yma'n bwysig gan nid yn unig yw'r llywodraeth yn nodi dylai athrawon Cymraeg ail-iaith fod yn annog plant i gyfathrebu'n trwy'r Gymraeg, mae hefyd yn profi'r strategaeth y mae'r Llywodraeth Cymru yn annog, sef drochi iaith "dylid eu cyflwyno'n gynyddol i'r Gymraeg".

Cefnogir hyn gan CBAC (1998, t. 7) wrth iddynt ddatgan "dylid defnyddio'r Gymraeg yn naturiol fel ei bod yn rhan annatod o weithgarwch y dosbarth/ysgol gyfan" ac ar yr un pryd yn pwysleisio amcan Llywodraeth Cymru.

Serch hynny, mae gan drochi iaith anafanteision ac mae rhai yn cael ei nodi gan Pilz (2018, t. 16) wrth ystyried y datganiad canlynol: "drawbacks that continually come up in research are: teacher turnover and lack of community knowledge and use of the language". Er bod gan drochi iaith yr anafanteision a nodir uchod, gellir edrych ar rain fel elfennau i wella er mwyn hybu'r iaith Gymraeg yn bellach. Mae'r ffaith bod trochi iaith mewn nifer wahanol o ymchwiliadau ac yn cael ei gysylltu i anafanteision megis trosiant athrawon a diffyg gwybodaeth gymunedol yn golygu bod yr ateb a nodir uchod yn wir. Mewn geiriau eraill dylir ysgolion cyfrwng Cymraeg cefnogi'r cyfrwng Saesneg er mwyn darparu'r wers

Cymraeg ail-iaith gorau posib. Cefnoga Lewis y dull addysgu trochi iaith o fewn yr erthygl wrth iddo ddatgan:

O'n safbwynt ni yng Nghymru, mae'n bwysig sylweddoli mai cyfuniad o ddulliau 'cryf' y modelau a adwaenir fel 'addysg drochi' ac 'addysg iaith treftadaeth' sy'n nodweddu ein rhaglenni addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mwyaf effeithiol. (Lewis, 2011, t. 71)

Felly, mae'n amlwg bod trochi iaith fel dull o addysgu Cymraeg ail-iaith yn ddull sy'n parhau i gael ei gefnogi'n gryf gan arbenigwyr addysg. Er bod gan y dull anfanteision, mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru a'r erthygl yn cefnogi'r defnydd yn elfen arwyddocaol er mwyn ystyried y dulliau gorau i geisio parhau i addysgu Cymraeg ail-iaith o fewn y sector cyfrwng Saesneg.

Yn bellach, mae'r ffaith bod Garcia yn nodi (2009, dyfynnwyd yn Lewis, 2011, t. 74) 'the traditional bilingual education types simply do not suffice in the twenty-first century' yn bendant cefnogi'r datganiadau a wneir gan Lewis yn yr erthygl, sef bod rhaid symud tuag at addysgu'n fwy rhyngweithiol gan ymuno'r ddwy iaith. Mae'r dulliau traddodiadol o addysgu dwyieithog y mae Garcia yn sôn yn cynnwys gwahanu'r ddwy iaith yn gyfan gwbl. Felly mae rhaid tynnu sylw i'r datblygiad a'r symudiad o addysg draddodiadol i ffordd o addysgu mwy cynhwysfawr, ac yna "dod ag ieithoedd at ei gilydd yn y dosbarth mewn ffordd lawer mwy rhyngweithiol nag yn y gorffennol" (Lewis 2011, t. 75). Serch hynny, dadleuir Shipton (2013) "many pupils in Wales are struggling with basic literacy skills in English. Forcing them to learn Welsh just makes it more likely they will be illiterate in two languages.". Mae'n hollbwysig i mi anghytuno â'r hyn y mae Shipton yn ei ddweud. Er bod Shipton yn nodi bod plant yng Nghymru eisoes yn cael trafferthion a sgiliau llythrennedd Saesneg sylfaenol, mae'n rhaid ystyried yr hyn y mae Garcia yn ddweud, lle mae'r erthygl yn pwysleisio bod "gosod ffiniau cadarn o amgylch yr ieithoedd yn hen-ffasiwn" (Lewis, 2011, t. 78). Yn dilyn hyn felly, mae Cymraeg ail-iaith yn bwnc ynddo'i hun a dylir ei haddysgu yn arwahanu i wersi eraill yn y cwricwlwm. Gellir ystyried hyn y broblem sy'n wynebu pwnc Cymraeg ail-iaith yng Nghymru gan nid yw'n ystyried yn bwnc craidd. Nodir yn y ddogfen 'Un Iaith i Bawb':

Er bod y newidiadau hyn wedi arwain at fwy o ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sydd yn dysgu'r Gymraeg, mae nifer y dysgwyr sydd yn cyrraedd lefel lle gellir defnyddio'r iaith tu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn isel. (Llywodraeth Cymru, 2013, t. 3)

Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn nodi bod y nifer o blant sydd yn medru defnyddio'i Chymraeg tu hwnt i'r ystafell dosbarth yn isel yn codi cwestiynau ar y defnydd o Gymraeg ail-iaith. Er hyn, mewn cytundeb gyda fy nehongliad uchod, noda Llywodraeth Cymru (2013, t. 3) bod "Cymraeg ail-iaith yn bwnc sylfaen, tra bo Cymraeg iaith gyntaf, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn bynciau craidd yn y cwricwlwm". Mae'r ffaith bod Cymraeg ail-iaith ddim yn bwnc craidd yn codi problemau gan nid yw addysgu plentyn iaith am awr bob wythnos yn ddigon i alluogi iddynt fod yn hyderus yn ddwyieithog. Felly mae'n hanfodol i mi gytuno â'r hyn y mae'r erthygl yn ei ddweud, lle dylem fod yn cyfuno'r ddwy iaith mewn ffordd Trawsieithu ar gyfer llwyddiant mewn addysg ddwyieithog y dyfodol. Mae'r datganiad canlynol felly'n cadarnhau bod "angen llunio modelau sy'n adlewyrchu'r llithrigrwydd ieithyddol sydd ar waith mewn dosbarthiadau o ganlyniad i'r trawsieithu sy'n nodweddiadol o ddosbarthiadau dwyieithog heddiw" (Lewis, 2011, t. 82).

Felly, er mwyn cynllunio casgliad, mae'n glir bod Lewis yn dadlau'n llwyddiannus yr angen i ddatblygu ein system addysg yn nhermau ymgorffori Cymraeg a Saesneg yn yr ystafell dosbarth ac ymuno'r ddwy iaith yn yr ystafell ddosbarth. Mae dadl Lewis, ochr-yn-ochr â Garcia yn cefnogi'r syniad yma o symud i ffwrdd o addysgu iaith mewn modd traddodiadol a rhoi fwy o bwyslais ar addysgu'r ieithoedd gyda'i gilydd mewn ffordd ryngweithiol trwy ddulliau megis trochi iaith.

Ar y cyfan, credaf dylir ysgolion Cymraeg cynnig cymorth i ysgolion cyfrwng Saesneg i hybu a gwella safon Cymraeg ail-iaith. Yn ogystal, credaf ei fod yn angenrheidiol symud i ffwrdd o'r agwedd draddodiadol o addysgu dwyieithrwydd, a thrwy ymgorffori dull mwy rhyngweithiol bu hyn yn arwain at berthynas llwyddiannus rhwng yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Yna, mae'r datganiad canlynol gan Donaldson yn cadarnhau fy argymhellion uchod ac yn annog y pwysigrwydd o symud addysg Gymraeg i ffurf fwy rhyngweithiol, "mae Rhieni dros Addysg Gymraeg yn credu'n gryf bod dwyieithrwydd yn fantais wirioneddol a'i fod o gymorth i ddysgu ieithoedd ychwanegol ac yn agor drysau i blant a phobl ifanc" (2015, t. 59).

Rhestr gyfeiriadau

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron. t. 59-60

Lewis, G. (2011). Addysg Ddwyieithog yn yr unfed ganrif ar hugain: adolygu'r cyd-destun rhyngwladol. *Gwerddon*. 7, t. 66-88.

Gwerddon. (2011). W. Gwyn Lewis. Ar gael yn:
<http://www.gwerddon.cymru/en/whatisgwerddon/contributors/name-3974-en.aspx>.
[Darllenwyd: 30ain o Ionawr 2019.]

Llywodraeth Cymru (2008). *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron. t. 27.

Pearson, B. (2008). *Raising a Bilingual Child*. UDA: Living Language. t. 147.

Llywodraeth Cymru (2015). *Cymraeg ail iaith yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron. t. 9.

Pilz, K. (2018). *Advantages and Disadvantages in Spanish Immersion: A Literature Review*. St. Cloud State University: St. Cloud State University. t. 16.

CBAC (1998). *Agweddau ar Addysgu Cymraeg ail iaith Cyfnodau allweddol 1 a 2*. Caerdydd: Uned Iaith Genedlaethol Cymru. t. 7.

Shipton, M.. (2013). 'A third of the school curriculum should be taught in Welsh' call. Ar gael yn: <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/a-third-school-curriculum-should-4752160>. [Darllenwyd: 1af o Chwefror 2019.]

Llywodraeth Cymru (2013). *Un iaith i bawb*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron. t. 3.